# Proses Achredu RCOT

## Cynnwys


Proses Achredu RCOT .......... 3
Adran 1: Trosolwg .......... 4
1.1 Pwy sy'n gosod y safonau ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol? .......... 4
1.2 Beth yw Proses Achredu RCOT? .......... 4
1.3 Beth yw rôl yr HCPC? .......... 5
1.4 Beth yw manteision Achrediad? .......... 5
1.5 Faint yw'r ffi Achredu? .......... 7
1.6 Byddem yn hoffi ymgeisio am Achrediad RCOT. Beth ddylem ni ei wneud yn gyntaf? .......... 8
Adran 2: Y Broses Achredu .......... 9
2.1 Sut ddylen ni baratoi ar gyfer Achrediad? .......... 9
2.2 Beth sydd angen i ni ei gyflwyno er mwyn i'n rhaglen cyn cofrestru gael ei hasesu i gael Achrediad? .......... 9
2.3 Beth yw rôl Panel Achredu RCOT? .......... 16
2.4 Beth sy'n digwydd yn ystod Ymweliad Achredu? .......... 17
2.5 Beth yw deilliannau posibl Ymweliad Achredu? .......... 19
2.6 Beth yw llinell amser Achredu? .......... 21
2.7 Sut ydym ni'n cydnabod ein llwyddiant i gael Achrediad RCOT? .......... 23
2.8 Beth yw'r cylch Achredu? .......... 23
2.9 A yw RCOT yn cynnig Achrediad ôl-syllol? .......... 23
Adran 3: Gofynion Achredu Parhaus .......... 24
3.1 Beth sydd angen i ni ei wneud i gynnal Achrediad ein rhaglen cyn cofrestru? .......... 24
3.2 A allwn ni wneud newidiadau i'r rhaglen cyn cofrestru ar ôl iddi gael ei Hachredu? .......... 24
3.3 Beth yw'r broses ar gyfer hysbysu RCOT o newid mân neu fawr? .......... 26
3.4 Beth yw'r adroddiadau monitro blynyddol (AMR)? .......... 26
3.5 Pa gyswllt sydd gennym gyda RCOT trwy gydol y flwyddyn academaidd? .......... 27
3.6 Sut fyddwn ni'n gofyn am estyniad i'r cyfnod mwyaf o astudio ar gyfer ein dysgwyr? .......... 27
3.7 Sut allwn ni ofyn am estyniad i'n cylch Achredu? .......... 28
3.8 Beth sy'n digwydd os oes gan RCOT bryder am y rhaglen cyn cofrestru? .......... 29

Adran 4: Adroddiadau Monitro Blynyddol a Luniwyd (AMR) ... 30
Adran 5: Achredwyr ... 31
5.1 Beth yw rôl Achredwr RCOT? ... 31
5.2 Beth yw disgwyliadau RCOT o'r Achredwyr? ... 31
5.3 Sut gallaf ddod yn Achredwr RCOT? ... 32
Adran 6: Diffiniadau a thermau ... 33

# Proses Achredu RCOT

Yma fe welwch chi wybodaeth am Broses Achredu RCOT, a ddyluniwyd ar gyfer darparwyr addysg cyfredol a darpar ddarparwyr addysg sy'n darparu rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Mae'r wybodaeth yn egluro disgwyliadau a gofynion y Broses Achredu ac yn dangos trylwyredd a didwylledd Achrediad RCOT. Dylid ei darllen ar y cyd â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

1. Trosolwg
2. Y Broses Achredu
3. Gofynion Achredu Parhaus
4. Adroddiadau Monitro Blynyddol a Luniwyd (AMR)
5. Achredwyr
6. Diffiniadau a Thermau

## Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk.

# Adran 1: Trosolwg

Yma fe welwch chi olwg gyffredinol o Broses Achredu RCOT, a ddyluniwyd ar gyfer darparwyr addysg cyfredol a darpar ddarparwyr addysg sy'n darparu rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon ym Medi 2019 a dylid ei darllen ar y cyd â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

## 1.1 Pwy sy'n gosod y safonau ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol?

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn weithredol yn ennyn cyfraniad aelodau at drafodaethau am y safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer a disgwyliadau moesegol ac ymddygiad proffesiynol y proffesiwn. Trwy'r broses hon mae RCOT yn pennu'r trothwy ar gyfer 'addasrwydd ar gyfer y proffesiwn', trwy fynegi'r safonau proffesiynol ac addysgol ar gyfer therapi galwedigaethol.

Ar gyfer rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru, cofnodir disgwyliadau'r proffesiwn yn *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT a gyhoeddwyd yn 2019.

## 1.2 Beth yw Proses Achredu RCOT?

Mae *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT yn disgrifio disgwyliadau'r proffesiwn y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg eu bodloni wrth ddarparu rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae RCOT yn rheoli Proses Achredu, gan ddefnyddio'r Safonau hyn i asesu rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru a sicrhau safon o ran eu dyluniad a'u darparu.

Ffederasiwn o sefydliadau therapi galwedigaethol yw Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (WFOT) sy'n cael ei chydnabod gan y Cenhedloedd Unedig gyda statws swyddogol gan Sefydliad Iechyd y Byd. Yr WFOT sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer therapi galwedigaethol yn rhyngwladol. Fel aelod sefydliadol o'r WFOT, mae gan RCOT yr awdurdod dirprwyedig i roi cymeradwyaeth WFOT. Mae hyn yn sicrhau bod graddedigion rhaglen cyn cofrestru wedi ei hachredu gan RCOT yn dal cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn y rhan fwyaf o aelod wladwriaethau'r WFOT.

Felly, mae Proses Achredu'r RCOT yn sicrhau bod rhaglenni cyn cofrestru therapi galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig yn:

- cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y proffesiwn;
- cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y gymuned ryngwladol;
- ymatebol i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang cyfredol ac a ragwelir a all effeithio ar y proffesiwn;
- cynhyrchu graddedigion sy'n addas ar gyfer dyfarniad academaidd, ymarfer, eu diben a'r proffesiwn;
- cynhyrchu graddedigion sydd â chymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan unrhyw aelod wladwriaeth o'r WFOT.

## 1.3 Beth yw rôl yr HCPC?

Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yw'r corff rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r proffesiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gan y llywodraeth i ddiogelu'r cyhoedd. Mae HCPC yn cadw cofrestr o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n bodloni eu safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, y safonau medrusrwydd penodol i'r proffesiwn a'r safonau datblygu proffesiynol parhaus. Mae hefyd gosod safonau addysg a hyfforddiant, a ddefnyddir i asesu rhaglenni cyn cofrestru, a thrwy hynny sicrhau bod unigolyn sy'n cwblhau eu haddysg yn llwyddiannus yn cyrraedd y safonau medrusrwydd ac yn gymwys i gofrestru gyda'r HCPC.

Tra bod yr HCPC yn pennu 'addasrwydd i ymarfer', RCOT sy'n pennu 'addasrwydd ar gyfer y proffesiwn,' sydd tu hwnt i ddisgwyliadau'r HCPC. Rhaid cael cymeradwyaeth gan yr HCPC i raglen cyn cofrestru cyn y gellir cael achrediad gan RCOT.

## 1.4 Beth yw manteision Achrediad?

Mae Achrediad RCOT yn rhoi cyfle dro ar ôl tro i raglenni cyn cofrestru ystyried, gwerthuso ac adolygu eu cwricwlwm, cynnwys a chyfeiriad eu hunain gyda chyfraniad gan uwch reolwyr y darparwr addysg, rhanddeiliaid a chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol. Mae RCOT yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr a chyfarwyddyd i ddarparwyr addysg sy'n cynnal y broses hon, gan gynnwys cyngor am ddehongli *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

| **Achrediad RCOT: Manteision i Ddarparwyr Addysg** |
|---|
| Mae Proses Achredu RCOT yn sicrhau bod rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru yn y Deyrnas Unedig yn:<br>• cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y proffesiwn;<br>• cyrraedd y safonau addysgol a osodir gan y gymuned ryngwladol;<br>• ymatebol i faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang cyfredol ac a ragwelir a all effeithio ar y proffesiwn;<br>• cynhyrchu graddedigion sy'n addas ar gyfer dyfarniad academaidd, ymarfer, eu diben a'r proffesiwn;<br>• cynhyrchu graddedigion sydd â chymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan unrhyw aelod wladwriaeth o'r WFOT. |
| Mae'r monitro ansawdd parhaus a gynigir i raglenni cyn cofrestru wedi eu hachredu gan RCOT yn sicrhau bod proses ffurfiol ar gyfer sicrhau ansawdd wrth ddarparu addysg a bod rhaglenni cyn cofrestru yn parhau i gyrraedd y *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* diffiniedig. |
| Cynnwys y darparwr addysg a manylion y rhaglen cyn cofrestru yn:<br>• *Llawlyfr gyrfa* RCOT (ar-lein) a gynhyrchir yn flynyddol;<br>• holl gynlluniau a gweithgareddau recriwtio cenedlaethol RCOT sy'n annog a hyrwyddo darpar ddysgwyr i wneud cais am raglenni cyn cofrestru wedi eu hachredu;<br>• y gwasanaeth ymholiadau gyrfa; sef gwasanaeth cyfarwyddyd proffesiynol RCOT a gynigir i ddarpar ddysgwyr sy'n holi am yrfaoedd therapi galwedigaethol;<br>• cyfeiriadur ar-lein WFOT o raglenni cyn cofrestru sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. |
| Cyfle i gael eu cynnwys yn yr adroddiad monitro blynyddol a lunnir (AMR), a ddefnyddir i feincnodi rhaglenni cyn cofrestru unigol a rhoi darlun cenedlaethol o addysg therapi |

| |
|---|
| galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. |
| Cyngor a chyfarwyddyd i Arweinwyr Rhaglen – Lefel Weithredol newydd eu hapwyntio am addysgwyr â phrofiad addas sydd ar gael fel mentoriaid. |
| Mynediad at gofrestr arholwyr allanol sy'n cael ei diweddaru yn flynyddol, sy'n cadw manylion a meysydd arbenigedd yr aelodau o'r RCOT sy'n therapyddion galwedigaethol wedi cymhwyso sy'n barod i wasanaethu fel arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. |
| Mynediad at gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus, dyddiau astudio, hyfforddiant a rhwydweithio ar gyfer tîm y rhaglen cyn cofrestru gan gynnwys y rhai yn ymwneud â:<br>• chwrs cynefino a throsolwg o waith RCOT, yr adnoddau sydd ar gael i aelodau a disgwyliadau Achrediad RCOT;<br>• dysgu wrth ymarfer;<br>• ymchwil;<br>• rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru. |
| Aelodaeth o Gyngor Cyfarwyddwyr Addysg Therapi Galwedigaethol (COTED) a'r is-grwpiau cysylltiedig. |
| Cyfle i staff profiadol RCOT gefnogi tîm y rhaglen cyn cofrestru yn eu gweithgareddau dylanwadu. Gall hyn gynnwys rhoi gwasanaethau cyfryngu, wedi eu teilwrio ar gyfer anghenion y darparwr addysg unigol, fel dylanwadu ar uwch reolwyr i ehangu adnoddau a'r gefnogaeth a roddir i'r rhaglen cyn cofrestru. Mae RCOT yn talu costau teithio a chynhaliaeth cynrychiolwyr RCOT a wahoddir i gymryd rhan mewn digwyddiadau. Pan na fydd staff RCOT ar gael, bydd manylion am uwch addysgwyr profiadol a all gynnig cefnogaeth yn cael eu rhoi. |
| Cynefino cohortau o ddysgwyr yn y proffesiwn a phecyn aelodaeth myfyrwyr o RCOT yn cynnwys:<br>• trosolwg o'r gwasanaethau a'r buddiannau RCOT wedi eu teilwrio i ddysgwyr;<br>• cyngor a chefnogaeth i ddarparwyr addysg a dysgwyr am gofrestru a gweithredu eu haelodaeth myfyrwyr o RCOT. |
| *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol* RCOT yn cael ei roi i bob dysgwr sydd wedi ymrestru ar raglen cyn cofrestru. |
| Copïau o gyhoeddiadau craidd RCOT a anfonir yn uniongyrchol at lyfrgellwyr pwnc darparwyr addysg i'w cynnwys yn y llyfrgell. Copi o'r holl ddogfennau polisi a chyfarwyddyd RCOT sydd newydd eu cynhyrchu yn cael eu hanfon at yr Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol sy'n goruchwylio'r rhaglenni cyn cofrestru.<br><br>Cyfle i lyfrgellydd pwnc y darparwr addysg fynychu dyddiau astudio RCOT a drefnir gan Dîm Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth RCOT. |
| Mynediad at adnoddau RCOT unigryw sy'n cefnogi addysgwyr ac addysgwyr ymarfer sy'n ymwneud â darparu dysgu wrth ymarfer ar draws pob lleoliad. |
| Y cyfle i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o adolygu, gwerthuso ac ystyried *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT, a'r prosesau cysylltiedig. |
| Y cyfle i wneud cais am ymweliad gan Noddwraig RCOT, EMB Y Dywysoges Frenhinol. |

| |
|---|
| Adran Gyfathrebu a Marchnata RCOT sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwylio'r holl ymweliadau brenhinol y mae'r Dywysoges Frenhinol yn eu gwneud fel ein Noddwraig, ac mae'n rhoi cefnogaeth a chyngor i sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau yn llwyddiannus ac yn bodloni'r protocol brenhinol a gofynion EMB. |

| **Achrediad RCOT: Manteision i Ddysgwyr** |
|---|
| Mae dysgwyr sydd wedi ymrestru ar raglenni cyn cofrestru wedi eu hachredu yn gymwys i ymgeisio am aelodaeth myfyrwyr o RCOT sydd â'r buddiannau canlynol:<br><br>• yswiriant indemniad proffesiynol;<br>• aelodaeth o undeb UNSAIN: sy'n rhoi yswiriant i ddysgwyr pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â'u hastudiaethau sy'n cynnwys mynediad at gynhyrchion ac adnoddau ond nid yw'n cynnwys cefnogaeth gwaith achos;<br>• mynediad i'r *British Journal of Occupational Therapy* (*BJOT*);<br>• mynediad i *Occupational Therapy News* (*OTnews*);<br>• mynediad llawn i wefan RCOT, gan gynnwys deunydd a neilltuwyd i aelodau yn unig;<br>• mynediad at adnoddau ymarfer;<br>• mynediad at adnoddau ymchwil;<br>• mynediad at adnoddau llyfrgell RCOT, gan gynnwys cylchgronau rhyngwladol;<br>• hawliau pleidleisio ar gyfer cynrychiolwyr Cyngor RCOT;<br>• cyfraddau gostyngol ar gyfer rhai digwyddiadau, dyddiau astudio, cynadleddau a chyhoeddiadau;<br>• cefnogaeth benodol gan staff RCOT sy'n gweithio ar ran dysgwyr;<br>• aelodaeth ddewisol o adrannau arbenigol RCOT a WFOT;<br>• cyfleoedd i ymwneud â grwpiau rhanbarthol neu leol RCOT, Byrddau RCOT, pwyllgorau a gweithgorau;<br>• hawl i fynychu Cynhadledd RCOT am ddim i ddau ddysgwr o bob darparwr addysg a Achredwyd gan RCOT. |
| Mae Achrediad RCOT yn sicrhau bod graddedigion rhaglenni cyn cofrestru yn addas ar gyfer y proffesiwn therapi galwedigaethol. |
| Mae Achrediad RCOT yn sicrhau bod graddedigion rhaglenni cyn cofrestru yn gymwys i weithio yn rhyngwladol, gan y bydd eu cymhwyster yn cael ei gydnabod yn unrhyw wlad sy'n aelod o WFOT. |

## 1.5 Faint yw'r ffi Achredu?

Mae ffi flynyddol ar gyfer pob darparwr addysg, sy'n gyfraniad at gostau'r Achrediad cychwynnol, Ail-achredu a monitro ansawdd parhaus. Mae'r ffi yn cael ei hadolygu yn gyson a'i chysoni â buddiannau a gwasanaethau Achrediad RCOT.

Yn ychwanegol, gwahoddir darparwyr addysg i dalu costau ymuno â RCOT eu dysgwyr fel aelodau sy'n fyfyrwyr. Os na fydd darparwyr addysg yn talu costau ymaelodi â RCOT eu myfyrwyr, mae dysgwyr unigol yn gallu ymgeisio am gael bod yn aelodau sy'n fyfyrwyr yn uniongyrchol i RCOT. Mae buddiannau aelodaeth myfyrwyr o RCOT yn cynnwys:

- yswiriant indemniad proffesiynol;

- aelodaeth o undeb UNSAIN: sy'n rhoi yswiriant i ddysgwyr pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â'u hastudiaethau sy'n cynnwys mynediad at gynhyrchion ac adnoddau ond nid yw'n cynnwys cefnogaeth gwaith achos;
- mynediad i'r *British Journal of Occupational Therapy* (*BJOT*);
- mynediad i *Occupational Therapy News* (*OTnews*);
- mynediad llawn i wefan RCOT, gan gynnwys deunydd a neilltuwyd i aelodau yn unig;
- mynediad at adnoddau ymarfer;
- mynediad at adnoddau ymchwil;
- mynediad at adnoddau llyfrgell RCOT, gan gynnwys cylchgronau rhyngwladol;
- hawliau pleidleisio ar gyfer cynrychiolwyr Cyngor RCOT;
- cyfraddau gostyngol ar gyfer rhai digwyddiadau, dyddiau astudio, cynadleddau a chyhoeddiadau;
- cefnogaeth benodol gan staff RCOT sy'n gweithio ar ran dysgwyr;
- aelodaeth ddewisol o adrannau arbenigol RCOT a WFOT;
- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau rhanbarthol neu leol RCOT, Byrddau RCOT, pwyllgorau a gweithgorau;
- hawl i fynychu Cynhadledd RCOT am ddim i ddau ddysgwr o bob darparwr addysg a Achredwyd gan RCOT.

Cyn pob blwyddyn academaidd, bydd y ffi Achredu a'r gwasanaethau cysylltiedig sy'n gynwysedig yn y ffi, ynghyd â manylion ffioedd aelodaeth myfyrwyr, ar gael i'r holl ddarparwyr addysg.

### 1.6 Byddem yn hoffi ymgeisio am Achrediad RCOT. Beth ddylem ni ei wneud yn gyntaf?

Os ydych yn ystyried Achrediad RCOT, cysylltwch â RCOT cyn gynted ag sy'n bosibl i drefnu trafodaeth gychwynnol. Yn y cyfamser, darllenwch y wybodaeth isod, sy'n disgrifio popeth y bydd angen i chi ei wybod am sut i baratoi ar gyfer Achrediad.

Os ydych yn ystyried sefydlu rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru, darllenwch y wybodaeth a roddir gan y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol hefyd.

## Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk

# Adran 2: Y Broses Achredu

Yma fe gewch yr holl fanylion perthnasol am Broses Achredu RCOT, gan gynnwys y wybodaeth y mae angen i ddarparwyr addysg ei pharatoi ar gyfer Achrediad neu Ail-achrediad. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon ym Medi 2019 a dylid ei darllen ar y cyd â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

## 2.1 Sut ddylen ni baratoi ar gyfer Achrediad?

Cynghorir darparwyr addysg sy'n ceisio cael Achrediad yn gryf i gysylltu â RCOT cyn gynted ag sy'n bosibl, cyn y dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer y rhaglen cyn cofrestru. Mae'r siart llif hon yn rhoi cyfarwyddyd ar ba mor bell ymlaen llaw y dylai darparwr addysg gysylltu â RCOT.

Mae dull RCOT o Achredu yn un cydweithredol ac yn canolbwyntio ar sicrhau rhaglenni cyn cofrestru o safon uchel. Wrth baratoi ar gyfer Achrediad, mae RCOT yn gallu cefnogi'r darparwr addysg fel 'ffrind beirniadol.' Rhoddir anogaeth i dimau rhaglenni cyn cofrestru geisio cyngor a chyfarwyddyd gan RCOT yn gynnar yn y cyfnod datblygu neu adolygu i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion Achrediad a Safonau RCOT. Mae staff RCOT ar gael i ymateb i ymholiadau a thrafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder i'r timau rhaglenni cyn cofrestru. Ar ôl i'r dogfennau gael eu cyflwyno, mae'r Broses Achredu ffurfiol yn cychwyn ac o'r pwynt hwnnw ymlaen, bydd RCOT yn gweithredu fel archwiliwr ac ni all barhau yn y rôl o 'ffrind beirniadol'.

## 2.2 Beth sydd angen i ni ei gyflwyno er mwyn i'n rhaglen cyn cofrestru gael ei hasesu i gael Achrediad?

Mae 'dogfennau'r rhaglen' yn cyfeirio at y casgliad o ddogfennau a baratowyd gan y darparwr addysg ac a gyflwynwyd i RCOT fel elfen allweddol o'r Broses Achredu. Mae'n cynnwys tystiolaeth a roddwyd yn ystod trafodaethau yn ystod yr Ymweliad Achredu. Dylai dogfennau'r rhaglen ddangos sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn cyrraedd *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT. Bydd y Panel Achredu yn adolygu'r dogfennau cyn yr Ymweliad Achredu, a rhaid eu cyflwyno i RCOT o leiaf 6 wythnos cyn hynny.

Mae *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT yn cyd-fynd â *Safonau addysg a hyfforddiant* HCPC, er mwyn lliflinio'r broses baratoi ar gyfer darparwyr addysg sydd am gael Achrediad RCOT yn ychwanegol at gymeradwyaeth HCPC.

Mae amrywiaeth yn bodoli rhwng darparwyr addysg o ran y wybodaeth a gofnodir ar draws llawlyfrau, strategaethau, polisïau, gweithdrefnau, curicula ac adnoddau eraill y rhaglen cyn cofrestru yn disgrifio a chefnogi'r addysg sydd i'w chyflwyno. Ond mae'r tabl isod yn rhestru'r categorïau bras o ddogfennau sy'n ofynnol gan RCOT a'r elfennau penodol sydd fel arfer yn cael eu cynnwys ym mhob categori. Gellir gofyn am ddogfennau'r rhaglen ar ffurf copi caled neu feddal.

# Paratoi ar gyfer Achrediad **RCOT**

A yw'r darparwr addysg yn cyflwyno unrhyw raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru ar hyn o bryd?

- **Ydy** → A yw'r darparwr addysg yn ymgeisio am Achrediad i raglen cyn cofrestru newydd?
  - **Ydy** → Ystyrir bod hwn yn gais am Achrediad i raglen cyn cofrestru newydd gan ddarparwr addysg sy'n bodoli. Cysylltwch â RCOT 12 mis ymlaen llaw.
  - **Na** → Ystyrir bod hwn yn gais am Ail-achrediad. Cysylltwch â RCOT 9-12 mis ymlaen llaw.
- **Na** → Ystyrir bod hwn yn gais am Achrediad i raglen cyn cofrestru newydd gan ddarparwr addysg newydd. Cysylltwch â RCOT 18 mis ymlaen llaw.

**Cysylltwch â RCOT**
Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk neu 020 7357 6480.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Cyhoeddwyd: Medi 2019. Lawrlwythwyd o: **www.rcot.co.uk/accreditation-process**

| Categori’r ddogfen | Y wybodaeth a awgrymir y gall pob categori o ddogfen ei chynnwys |
|---|---|
| Dogfen fapio | Er mwyn cynorthwyo adolygiad y Panel Achredu o ddogfennau’r rhaglen, mae’n ofynnol cael dogfen fapio. Bydd y ddogfen hon yn cyfeirio’r Panel Achredu at y man lle ceir tystiolaeth yn ymwneud â phob safon a’r meini prawf cysylltiedig yn *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT<br><br>Bydd RCOT yn darparu templed i hwyluso’r ymarfer mapio. |
| Strategaeth staffio | Dylai’r strategaeth staffio neu wybodaeth gyfatebol yn nogfennau’r rhaglen gynnwys:<br><br>• y gymhareb addysgwr i ddysgwr;<br>• disgrifiad o’r modd y mae staff wedi eu dosbarthu ar draws yr holl raglenni;<br>• rolau a chyfrifoldebau’r holl randdeiliaid;<br>• arbenigedd a chymwysterau addysgwyr ac addysgwyr ymarfer a sut mae hyn yn dylanwadu ar y dysgu;<br>• arbenigedd a chymwysterau staff gweinyddol a chefnogi;<br>• y model cynllunio baich gwaith;<br>• y broses ar gyfer rheoli cynnydd yn y nifer sy’n ymrestru neu ostyngiad yn nifer y staff;<br>• y cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes i’r holl staff;<br>• gwybodaeth am y gwaith paratoi a’r gefnogaeth a roddir i addysgwyr ac addysgwyr ymarfer;<br>• y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydweithio â sefydliadau iechyd, gofal, anabledd, addysgol a deddfwriaethol;<br>• gwybodaeth berthnasol am arholwyr allanol. |
| Llawlyfr dysgwyr | Dylai’r llawlyfr dysgwyr neu wybodaeth gyfatebol yn nogfennau’r rhaglen gynnwys:<br><br>• gwybodaeth yn ymwneud â recriwtio a derbyn dysgwyr;<br>• gwybodaeth yn ymwneud â chydnabod dysg flaenorol;<br>• y deilliannau dysgu; |

| | |
|---|---|
| | • y strategaeth ddysgu, addysgu ac asesu;<br>• yr holl restrau darllen;<br>• gwybodaeth am gyfranogiad dysgwyr a chwblhau;<br>• gwybodaeth am baratoi, cynefino a chefnogi dysgwyr;<br>• gwybodaeth am ddysgu rhyngbroffesiynol;<br>• rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid;<br>• rheoliadau'r darparwr addysg a thystiolaeth am unrhyw eithriadau i Achrediad RCOT sydd yn eu lle<br>• arbenigedd a chymwysterau addysgwyr ac addysgwyr ymarfer a sut mae hyn yn dylanwadu ar y dysgu;<br>• y polisi diogelu;<br>• gwybodaeth am reoli dysgwyr nad ydynt yn gallu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol a/neu ddysgwyr nad ydynt yn addas i ymarfer;<br>• gwybodaeth am brosesau apelio a chwyno academaidd. |
| Llawlyfr y rhaglen | Dylai llawlyfr y rhaglen neu wybodaeth gyfatebol yn nogfennau'r rhaglen gynnwys:<br>• gwybodaeth yn ymwneud â recriwtio a derbyn dysgwyr;<br>• gwybodaeth yn ymwneud â chydnabod dysg flaenorol;<br>• deilliannau dysgu;<br>• y strategaeth ddysgu, addysgu ac asesu;<br>• yr holl restrau darllen;<br>• gwybodaeth am gyfranogiad dysgwyr a chwblhau;<br>• gwybodaeth am baratoi, cynefino a chefnogi dysgwyr;<br>• gwybodaeth am ddysgu rhyngbroffesiynol;<br>• rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid;<br>• rheoliadau'r darparwr addysg a thystiolaeth am unrhyw eithriadau i Achrediad RCOT sydd yn eu lle<br>• arbenigedd a chymwysterau addysgwyr ac addysgwyr ymarfer a sut mae hyn yn dylanwadu ar y dysgu;<br>• y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydweithio â sefydliadau iechyd, gofal, anabledd, |

| | |
|---|---|
| | addysgol a deddfwriaethol;<br>• y polisi diogelu;<br>• gwybodaeth am reoli dysgwyr nad ydynt yn gallu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol a/neu ddysgwyr nad ydynt yn addas i ymarfer;<br>• gwybodaeth am brosesau apelio a chwyno;<br>• gwybodaeth berthnasol am arholwyr allanol. |
| Llawlyfr dysgu wrth ymarfer | Dylai'r llawlyfr dysgu wrth ymarfer neu wybodaeth gyfatebol yn nogfennau'r rhaglen gynnwys:<br>• gwybodaeth yn ymwneud â chydnabod dysg flaenorol;<br>• y deilliannau dysgu;<br>• y strategaeth ddysgu, addysgu ac asesu;<br>• yr holl restrau darllen;<br>• gwybodaeth am gyfranogiad dysgwyr a chwblhau;<br>• y cytundebau neu gontractau dysgu;<br>• manylion am y gofyn am 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer y gellir eu hasesu;<br>• gwybodaeth am fethiant a chynnydd o ran dysgu wrth ymarfer;<br>• y strategaeth sefydliadol a gweinyddol ar gyfer trefnu dysgu wrth ymarfer;<br>• y modelau goruchwylio;<br>• arbenigedd a chymwysterau addysgwyr ac addysgwyr ymarfer sy'n ymwneud â dysgu wrth ymarfer a sut y mae hyn yn dylanwadu ar y dysgu;<br>• rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid;<br>• rheoliadau'r darparwr addysg a thystiolaeth am unrhyw eithriadau i Achrediad RCOT sydd yn eu lle;<br>• gwybodaeth am baratoi a chefnogi dysgwyr;<br>• gwybodaeth am baratoi a chefnogi addysgwyr ymarfer, gan gynnwys manylion unrhyw gyrsiau hyfforddiant neu weithdai;<br>• strategaeth ar gyfer ymgysylltu â darparwyr dysgu wrth |

| | |
|---|---|
| | ymarfer a'u cefnogi;<br><br>• y prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer elfennau dysgu wrth ymarfer;<br><br>• y polisi diogelu;<br><br>• gwybodaeth am reoli dysgwyr nad ydynt yn gallu cyrraedd y deilliannau dysgu gofynnol a/neu ddysgwyr nad ydynt yn addas i ymarfer;<br><br>• gwybodaeth am brosesau apelio a chwyno academaidd. |
| Cwricwlwm | Dylai'r cwricwlwm neu wybodaeth gyfatebol yn nogfennau'r rhaglen gynnwys:<br><br>• manyleb y rhaglen;<br><br>• y deilliannau dysgu;<br><br>• y datganiadau athroniaeth a diben;<br><br>• y strategaeth ddysgu, addysgu ac asesu;<br><br>• manyleb y pynciau/modylau;<br><br>• y cynllun cyflwyno;<br><br>• yr holl restrau darllen;<br><br>• crynodeb o unrhyw ymchwil marchnad perthnasol;<br><br>• tystiolaeth o gysoni ag egwyddorion datblygu proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes ;<br><br>• y wybodaeth yn gysylltiedig ag ymchwil a datblygu sgiliau;<br><br>• gwybodaeth am ddysgu rhyngbroffesiynol;<br><br>• y cylch adolygu cwricwlwm a'r dull. |
| Strategaeth adolygu a gwerthuso | Dylai'r strategaeth adolygu a gwerthuso yn nogfennau'r rhaglen gynnwys:<br><br>• yr ymrwymiad gan y darparwr addysg i roi digon o adnoddau i'r rhaglen cyn cofrestru am y cyfnod y mae'r achrediad yn rhedeg;<br><br>• gwybodaeth am gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, dysgwyr a graddedigion mewn prosesau trafod a llunio penderfyniadau yn gysylltiedig â'r rhaglen cyn cofrestru; |

| | |
|---|---|
| | • y cylch adolygu cwricwlwm a'r dull;<br><br>• y prosesau gwella ansawdd a'i gryfhau;<br><br>• rheoliadau'r darparwr addysg a thystiolaeth am unrhyw eithriadau i Achrediad RCOT sydd yn eu lle;<br><br>• y strategaeth ar gyfer cyrraedd gofynion monitro ansawdd parhaus RCOT, yn benodol yr adroddiad monitro blynyddol (AMR) a hysbysu o newidiadau mawr a mân;<br><br>• rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid;<br><br>• y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr presennol a darpar gyflogwyr;<br><br>• y strategaeth ar gyfer gwelliant parhaus a chynnal yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael. |
| Strategaeth rheoli asedau | Dylai'r strategaeth rheoli adnoddau yn nogfennau'r rhaglen gynnwys:<br><br>• gwybodaeth am yr holl adnoddau a chyfleusterau a chyfiawnhad am hynny;<br><br>• y strategaeth ar gyfer gwelliant parhaus a chynnal yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael. |
| *Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru:* | |
| Templed contract | Dylai'r templed contract adlewyrchu cytundeb rhwng y dysgwr, y darparwr addysg a'r cyflogwr a disgrifio:<br><br>• cyfrifoldebau sefydliadol y cyflogwr, darparwr addysg a'r darparwr dysgu wrth ymarfer;<br><br>• rolau a chyfrifoldebau'r dysgwr, y mentor yn y gwaith, yr addysgwr a'r addysgwr ymarfer;<br><br>• statws dysgwr mewn cymhariaeth â gweithiwr, a'r cyd-destunau pan fydd y gwahaniaeth hwn yn bwysig;<br><br>• yr ymrwymiad gan gyflogwyr i fodloni'r un disgwyliadau â darparwyr addysg o ran adnoddau digonol i sicrhau bod safon uchel yn y cyfleoedd addysg a dysgu a gynigir;<br><br>• pryd a sut y bydd polisïau cyflogwyr a darparwyr addysg yn gweithredu a pha un fydd yn cael blaenoriaeth o ystyried yr amgylchiad.<br><br>Efallai y bydd angen contract ychwanegol i ddangos y |

| | |
|---|---|
| | trefniadau ar gyfer yr asesiad terfynol. |
| Asesiad terfynol | O leiaf 12 mis cyn yr asesiad terfynol cyntaf a drefnwyd, mae'n ofynnol i'r darparwr addysg gyflwyno tystiolaeth i RCOT ei fod wedi ei gofnodi ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol, neu ei fod wedi penodi asesydd terfynol o blith y rhai sydd wedi cael eu cofnodi yn llwyddiannus ar y Gofrestr. |
| Llawlyfr dysgwyr | Gwybodaeth am oblygiadau methu ar botensial y dysgwr i symud ymlaen ac i barhau i gael ei gyflogi. |
| Llawlyfr y rhaglen | Manylion am sut y mae hawliau'r gweithiwr a mannau lle mae pwysedd yng ngweithle'r cyflogwr yn cael eu hystyried wrth drefnu dysgu wrth ymarfer.<br><br>Gwybodaeth am oblygiadau methu ar botensial y dysgwr i symud ymlaen ac i barhau i gael ei gyflogi. |
| Llawlyfr dysgu wrth ymarfer | Gwybodaeth am oblygiadau methu ar botensial y dysgwr i symud ymlaen ac i barhau i gael ei gyflogi.<br><br>Datganiad clir o ran y gofynion ar gyfer lleoliad ymarfer gan gynnwys y gofyn am 1000 o oriau wrth weithio i gael eu cwblhau yn llwyddiannus tu allan i fan gwaith y dysgwr. |
| Mapio i'r Safon Prentisiaeth | Dylai'r rhaglen cyn cofrestru a'r asesiad terfynol gael eu mapio i gyd fynd â'r *Safon prentisiaeth – therapydd galwedigaethol (gradd integredig) y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol.* |
| *Categorïau o ddogfennau rhaglen ychwanegol ar gyfer ail-achredu* | |
| Gwerthusiad o'r rhaglen cyn cofrestru | Adolygiad o'r cyfnod achrediad llawn a'r rhesymeg tu ôl i unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflwyno'r rhaglen cyn cofrestru yn y dyfodol. |
| Adroddiadau arholwyr allanol | Adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf ac ymateb y darparwr addysg i'r adroddiadau hyn. |

## 2.3 Beth yw rôl Panel Achredu RCOT?

Penodir Panel Achredu RCOT ar gyfer pob darparwr addysg sydd am gael Achrediad. Rôl y Panel Achredu yw adolygu'r rhaglen cyn cofrestru ac asesu a yw'n bodloni *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT, y gofyn i gael Achrediad RCOT. Bydd y Panel Achredu yn asesu dogfennau'r rhaglen ac yn ymweld â'r darparwr addysg i gyfarfod tîm y rhaglen cyn cofrestru a rhanddeiliaid eraill, ac yna yn argymell a ddylai'r rhaglen cyn cofrestru gael ei Achredu.

Mae Paneli Achredu RCOT yn cynnwys 1 Swyddog RCOT ac 1–2 Achredwr RCOT. Swyddogion RCOT yw aelodau o'r staff sy'n trefnu a rheoli'r Broses Achredu, gan gynnwys:

- cysylltu â swyddog ansawdd y darparwr addysg am gylch gorchwyl a disgwyliadau'r Panel Achredu;
- arwain y Panel Achredu trwy'r holl gyfarfodydd cysylltiedig;
- rhoi cyfarwyddyd i'r darparwr addysg ar sut i gyrraedd *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT;
- sicrhau bod y Panel Achredu yn defnyddio *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT ac yn dilyn y Broses Achredu;
- sicrhau bod yr amodau, argymhellion a'r ganmoliaeth yn cael eu cyflwyno i'r darparwr addysg;
- sicrhau bod ymatebion gan y darparwr addysg yn dilyn Ymweliad Achredu yn cael eu trin yn brydlon.

Mae Achredwyr RCOT yn therapyddion galwedigaethol ac yn aelodau proffesiynol o RCOT sydd ag enw da, sydd â phrofiad o addysg ac ymarfer therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Mae gan RCOT broses ddatgelu buddiannau glir, i ddynodi unrhyw wrthdaro posib cyn i Achredwr gael ei ddyrannu i Banel Achredu penodol. Rhaid i Achredwyr RCOT fod yn aseswyr annibynnol. Os bydd darparwr addysg wedi gweithio gydag Achredwr wrth ddatblygu ei raglen cyn cofrestru neu fel cynghorydd ar y Broses Achredu, ni fydd yr unigolyn hwn yn gymwys i ymuno â'r Panel Achredu.

Pan fydd rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru newydd yn cael ei Hachredu neu pan fydd 2 neu fwy o raglenni cyn cofrestru yn cael eu hystyried yn yr un digwyddiad, bydd Panel Achredu RCOT yn cynnwys 2 Achredwr RCOT a'r Swyddog RCOT. Yn ystod ymweliadau ar gyfer y diben o Ail-achredu un raglen cyn cofrestru, bydd Panel Achredu RCOT yn cynnwys 1 Achredwr RCOT, 1 Achredwr hyfforddi a'r Swyddog RCOT. Mae digwyddiadau o'r fath yn gyfle i Achredwyr newydd gysgodi'r Achredwr profiadol i gael profiad hyfforddi.

## 2.4 Beth sy'n digwydd yn ystod Ymweliad Achredu?

Bydd y Panel Achredu yn ymweld â phob darparwr addysg sydd yn ceisio Achrediad RCOT ar gyfer eu rhaglen cyn cofrestru. Bydd y grwpiau o randdeiliaid fydd yn cymryd rhan, hyd yr ymweliad, ac agenda a ffurf yr Ymweliad Achredu yn amrywio, gan ddibynnu:

- a yw ar gyfer rhaglen cyn cofrestru newydd neu un sy'n bodoli;
- a yw ar gyfer 1 neu fwy o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru;
- a yw ar gyfer darparwr addysg newydd neu un sy'n bodoli yn barod;
- a yw'r ymweliad yn cael ei gynnal ar y cyd â'r HCPC;
- a yw'r darparwr addysg am gael Achrediad gan RCOT ac amrywiaeth o gyrff nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol yn ystod Ymweliad Achredu ar y cyd.

Bydd yr Ymweliad Achredu yn digwydd dim hwyrach na Mehefin ar gyfer rhaglen cyn cofrestru sy'n cychwyn y Medi canlynol a dim hwyrach na Hydref ar gyfer rhaglen cyn cofrestru sy'n cychwyn yn yr Ionawr canlynol. Mae Ymweliadau Achredu yn amrywio yn eu hyd o 1–3 diwrnod ac yn cynnwys cyfarfod amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid ac ymweliad â chyfleusterau dysgu'r darparwr addysg, gan gynnwys ardaloedd arbenigol fel amgylchedd dysgu wrth ymarfer efelychiadol . Bydd Agenda'r Ymweliad Achredu yn cael ei drafod gyda'r holl randdeiliaid fydd yn cymryd rhan i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pawb.

Mae'n ofynnol i Banel Achredu RCOT gyfarfod yr holl grwpiau rhanddeiliaid canlynol, yn ystod yr Ymweliad Achredu, ond dylai trafodaethau gyda dysgwyr a darparwyr dysgu wrth ymarfer ddigwydd yn ddelfrydol heb bresenoldeb unrhyw un o staff y darparwr addysg, gan gynnwys y Cadeirydd, i sicrhau amgylchedd lle gellir datgelu gwybodaeth yn agored.

| **Grwpiau rhanddeiliaid y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan mewn Ymweliad Achredu** | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n cymeradwyo | Os yw'r HCPC a/neu ddarparwr addysg arall hefyd yn cymeradwyo neu ddilysu'r rhaglen cyn cofrestru yn ystod yr un ymweliad, bydd angen cael cyfarfod i gytuno ar eitemau ar yr agenda a dynodi materion i'w trafod. |
| Tîm y rhaglen cyn cofrestru | I drafod y rhaglen cyn cofrestru yn fanwl, gan gynnwys y newidiadau sy'n cael eu gweithredu, y rhesymeg, yr athroniaeth, adnoddau, arweinyddiaeth a'r rheolaeth. |
| Uwch reolwyr | Er mwyn trafod hyfywedd y rhaglen cyn cofrestru, y gefnogaeth a ddarperir, y staff a'r rheolaeth ar adnoddau, y modelau cynllunio baich gwaith a'r dulliau addysgol trosfwaol e.e. dysgu rhyngbroffesiynol a dysgu ar-lein. |
| Y dysgwyr presennol (neu ddysgwyr o raglenni tebyg sy'n bodoli os yw'r darparwr addysg yn chwilio am Achrediad am raglen cyn cofrestru newydd) | I drafod profiad y dysgwr. |
| Partneriaid dysgu wrth ymarfer gan gynnwys darparwyr dysgu wrth ymarfer ac addysgwyr ymarfer (a chyflogwyr a mentoriaid yn y gwaith ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru) | I drafod y berthynas gyda thîm y rhaglen cyn cofrestru, rolau a chyfrifoldebau, cefnogaeth a roddir gan y darparwr addysg a chyfleoedd gwaith. |
| Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol | I drafod eu hymwneud â'r rhaglen cyn cofrestru. |

Bydd y darparwr addysg yn cefnogi'r Ymweliad Achredu trwy ddyrannu Cadeirydd Annibynnol i hwyluso'r trafodaethau. Mae rôl y Cadeirydd yn cynnwys sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei gynrychioli gyfle cyfartal i godi cwestiynau a chyfrannu at y drafodaeth, i roi cyfarwyddyd ar brosesau, gweithdrefnau, rheolau a rheoliadau darparwr addysg ac i gadw at yr agenda a gynlluniwyd.  Dylai'r Cadeirydd fod yn annibynnol o'r rhaglen cyn cofrestru ond

dylai fod â rhywfaint o brofiad o brosesau dilysu a chymeradwyo rhaglenni a reoleiddir yn broffesiynol.

Mae RCOT yn cynnal gwerthusiad o bob Ymweliad Achredu fel rhan o'r patrwm, gan roi cyfle i unrhyw un sydd wedi ymwneud â'r ymweliad i roi adborth ar gyfer monitor a gwella ansawdd ac i fod yn sail i'r Adroddiad Achredu blynyddol a gyflwynir i Fwrdd Dysgu a Datblygu RCOT. Bydd unrhyw bryderon a fynegir trwy'r broses hon gan randdeiliaid yn cael ei hymchwilio gan RCOT a rhoddir ymateb ffurfiol.

## 2.5 Beth yw deilliannau posibl Ymweliad Achredu?


Ar ddiwedd yr Ymweliad Achredu, fel arfer byd Panel Achredu RCOT yn rhoi adborth llafar i dîm y rhaglen cyn cofrestru ar ganlyniad tebygol y Broses Achredu. Bydd y canlyniad ffurfiol yn cael ei anfon yn ysgrifenedig at y darparwr addysg cyn pen 1 wythnos o'r ymweliad.

Mae'r deilliannau posibl yn cynnwys:

- Achrediad i gael ei ddyfarnu, heb amodau a/neu argymhellion;
- Achrediad i gael ei ddyfarnu, yn amodol ar amodau a/neu argymhellion;
- Achrediad gohiriedig.

Gweler y siart llif deilliant Achredu am ragor o wybodaeth .

# Siart llif Achrediad
# **RCOT**




**Cysylltwch â RCOT**
Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk neu 020 7357 6480.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Cyhoeddwyd: Medi 2019. Lawrlwythwyd o: **www.rcot.co.uk/accreditation-process**

Mae'r Panel Achredu yn gwerthfawrogi dull cydweithredol a chefnogol o ymdrin â phob Ymweliad Achredu ac mae'n rhoi blaenoriaeth i'r cyfle i roi canmoliaeth.

| Canmoliaeth | Amodau | Argymhellion |
|---|---|---|
| Rhoddir canmoliaeth i gydnabod maes penodol o arfer gorau sy'n cael ei ystyried yn rhagorol. | Diffinnir amod fel ymrwymiad y mae'n rhaid ei gyflawni cyn y gall y rhaglen cyn cofrestru gael ei Hachredu. Gosodir amod pan na fydd safon neu faen prawf o *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT wedi cael ei gyrraedd neu nad oes digon o dystiolaeth ei fod wedi ei gyrraedd. | Diffinnir argymhelliad fel cyngor proffesiynol neu academaidd a fwriedir i ysgogi trafodaeth er mwyn annog rhagor o welliannau i raglen cyn cofrestru. Mae ymrwymiad ar y darparwr addysg i ymateb i'r argymhelliad a chyfiawnhau ei ymateb; ond, nid oes raid iddo weithredu ar y cyngor. Cynigir argymhellion fel arfer pan deimlir bod safon neu faen prawf o *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT wedi cael ei gyrraedd, ar y trothwy, neu ychydig dros y trothwy. |

Pan fydd Achrediad yn cael ei roi yn amodol ar amodau, bydd y Panel Achredu a thîm y rhaglen cyn cofrestru yn cytuno erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r amodau gael eu bodloni. Bydd y Panel Achredu yn cynnig cefnogi tîm y rhaglen cyn cofrestru i weithredu'r dewisiadau a argymhellwyd yn yr amodau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Gall penderfyniad Achredu gael ei ohirio pan fydd ar y Panel Achredu angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth bod y rhaglen cyn cofrestru yn cyrraedd *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT. Mewn achosion o'r fath, bydd y Panel Achredu a thîm y rhaglen cyn cofrestru yn penderfynu ar amserlen gyda'r darparwr addysg i ymateb i'r ceisiadau am ragor o wybodaeth neu dystiolaeth. Efallai y bydd angen cyfarfod arall i drafod canlyniad y broses hon.

Pan fydd amodau ac argymhellion wedi cael eu bodloni, rhoddir Achrediad a bydd RCOT yn hysbysu'r darparwr addysg ac WFOT am y canlyniad llwyddiannus.

Rhaid i'r achrediad fod yn ei le cyn i raglen cyn cofrestru ddechrau.

## 2.6 Beth yw llinell amser Achredu?

Mae amserlenni a cherrig milltir allweddol y Broses Achredu i'w gweld yma.

# Llinell amser Achrediad
# **RCOT**

## 9–18 mis cyn yr Ymweliad Achredu

Darparwr addysg yn hysbysu RCOT o'r bwriad i ymgeisio am Achrediad RCOT.

Cyfarfod cychwynnol i drafod rhwng y darparwr addysg a RCOT, lle rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol.

Darparwr addysg yn talu ffi Achredu.

Dogfennau'r rhaglen yn cael eu paratoi gan y darparwr addysg. Trefnu'r Ymweliad Achredu yn dechrau.

RCOT yn rhannu agenda ddrafft yr Ymweliad Achredu gyda'r darparwr addysg, gan gynnwys manylion am unigolion a benodwyd ar y Panel Achredu.

## 6 wythnos cyn yr Ymweliad Achredu

Darparwr addysg yn cyflwyno dogfennau'r rhaglen i Banel Achredu RCOT.

Cadarnhau agenda'r Ymweliad Achredu.

## YMWELIAD ACHREDU

Ymweliad Achredu, gyda chrynodeb ar lafar ar y diwedd.

## + 1 wythnos

Darparwr addysg yn cael ei hysbysu yn ffurfiol o ganlyniad Ymweliad Achredu, gydag adroddiad Deilliant Achrediad.

## + 4 wythnos

Darparwr addysg i gyflwyno ymateb i RCOT yn ymdrin ag unrhyw amodau a/neu argymhellion, os oes angen.

## + 6 wythnos

Llythyr Achrediad ffurfiol yn cael ei anfon at raglenni cyn cofrestru cymwys.

Darparwr addysg yn rhoi adborth i RCOT ar y Broses Achredu.

## Parhaus

Gofynion Achredu parhaus yn cael eu cyflawni.

**Cysylltwch â RCOT**
Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk neu 020 7357 6480.

Cyhoeddwyd: Medi 2019. Lawrlwythwyd o: **www.rcot.co.uk/accreditation-process**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

## 2.7 Sut ydym ni'n cydnabod ein llwyddiant i gael Achrediad RCOT?

Ar ôl i Achrediad RCOT gael ei ddyfarnu, bydd RCOT yn cydnabod y llwyddiant hwn trwy:

- roi'r logo Achrediad RCOT i'r darparwr addysg, ynghyd â'r amodau i'w ddefnyddio;
- hysbysu WFOT trwy ychwanegu at y dudalen we rhaglenni addysg a gymeradwywyd WFOT neu ei diweddaru;
- cynnwys manylion y darparwr addysg a manylion y rhaglen cyn cofrestru yn *Llawlyfr gyrfa* RCOT, sy'n cael ei gynhyrchu yn flynyddol;
- amlygu'r rhaglen cyn cofrestru i ddarpar ddysgwyr sy'n cysylltu â RCOT;
- rhoi sesiynau cynefino i ddysgwyr newydd gyda Swyddog Cyswllt Addysg RCOT;
- dosbarthu adnoddau sylfaenol RCOT i'r holl ddysgwyr newydd;
- dosbarthu'r holl gyhoeddiadau craidd RCOT i lyfrgell y darparwr addysg;
- gwahodd llyfrgellwyr y darparwr addysg i ddyddiau astudio blynyddol;
- gwahodd aelodau o dîm y rhaglen i ymgeisio am y rôl o Achredwr RCOT;
- sicrhau bod tîm y rhaglen yn cael ei gynrychioli ar Gyngor Cyfarwyddwyr Addysg Therapi Galwedigaethol (COTED) a'r is-grwpiau cysylltiedig.

## 2.8 Beth yw'r cylch Achredu?

Ar gyfer monitro ansawdd a'i wella, dylai'r rhaglen cyn cofrestru gael ei hadolygu yn barhaus a'i diwygio bob 5 mlynedd o leiaf. Gall cais i'r RCOT am estyniad i'r cylch 5 mlynedd arferol gael ei ystyried. Gall RCOT ofyn am adolygiad cynharach os oes:

- newid mawr i'r rhaglen cyn cofrestru;
- tîm addysgu amhrofiadol yn rheoli'r rhaglen cyn cofrestru;
- trosiant cyflym o ran addysgwyr a staff cefnogi ers yr Ymweliad Achredu diwethaf;
- llawer o flaengaredd yng nghynnwys, cyflwyniad neu asesu'r rhaglen cyn cofrestru.

Pan na fydd recriwtio i raglen cyn cofrestru wedi ei hachredu yn y cyfnod disgwyliedig, bydd achrediad RCOT yn parhau yn ei le am 2 flynedd. Os bydd recriwtio i'r cwrs a'i fod yn rhedeg ar ôl yr amser hwnnw, bydd RCOT yn ceisio cael trafodaeth ffurfiol gyda'r darparwr addysg ac o bosibl yn cynnig Ymweliad Achredu wedi ei addasu i sicrhau bod y rhaglen cyn cofrestru yn parhau yn gyson â'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru*.

## 2.9 A yw RCOT yn cynnig Achrediad ôl-syllol?

Na, nid yw RCOT yn rhoi Achrediad ôl-syllol i raglenni cyn cofrestru. Bwriad y polisi hwn yw sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion WFOT. Gellir gwneud ceisiadau am Achrediad gan raglen cyn cofrestru sydd eisoes yn rhedeg neu un y mae'r Achrediad wedi dod i ben ar ei chyfer. Ond, dim ond dysgwyr newydd fydd yn mynd i mewn yn y flwyddyn academaidd yn dilyn dyfarnu Achrediad all gael eu galw yn rhai sydd wedi cwblhau rhaglen cyn cofrestru ag Achrediad RCOT ac a gymeradwywyd gan WFOT.

# Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk

# Adran 3: Gofynion Achredu Parhaus

Yma fe welwch fanylion am ofynion Achredu parhaus RCOT, y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg ymdrin â nhw i gynnal eu Hachrediad. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon ym Medi 2019 a dylid ei darllen ar y cyd â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

## 3.1 Beth sydd angen i ni ei wneud i gynnal Achrediad ein rhaglen cyn cofrestru?

Wrth dderbyn statws Achrediad, mae darparwyr addysg yn cytuno i:

- fodloni'r holl amodau sy'n ofynnol wrth Achredu a chynnal hyn trwy gydol y cyfnod Achredu;
- ymdrin â'r holl argymhellion a roddwyd wrth Achredu;
- gadw at *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT;
- gwblhau adroddiad monitro blynyddol (AMR) ar gyfer pob rhaglen cyn cofrestru;
- roi data am y dysgwyr sy'n dod i mewn a'r dysgwyr sy'n graddio yn flynyddol;
- hysbysu RCOT am unrhyw newid mawr i'r rhaglen cyn cofrestru, cyn i'r newid gael ei weithredu;
- gyflwyno tystiolaeth bod y darparwr addysg wedi cael ei gofnodi ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol, neu ei fod wedi penodi asesydd terfynol o blith y rhai sydd wedi cael eu cofnodi yn llwyddiannus ar y Gofrestr, o leiaf 12 mis cyn yr asesiad terfynol cyntaf a drefnwyd;
- weithio yn rhagweithiol ac mewn partneriaeth â RCOT trwy gyfnod yr Achrediad.

## 3.2 A allwn ni wneud newidiadau i'r rhaglen cyn cofrestru ar ôl iddi gael ei Hachredu?

Mae RCOT yn disgwyl i ddarparwyr addysg werthuso, gwella a chryfhau eu rhaglenni cyn cofrestru yn barhaus tu hwnt i gylch Achrediad RCOT, gan ddefnyddio eu polisïau, prosesau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol eu hunain. Un o ofynion *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT yw bod darparwyr addysg yn hysbysu RCOT am unrhyw newidiadau a wnaed i'r rhaglen cyn cofrestru, ar ôl i'r Achrediad gael ei ddyfarnu.

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i ddynodi a yw newidiadau i'r rhaglen cyn cofrestru yn cael eu hystyried yn newidiadau mawr neu fân gan RCOT. Pan na fydd yn glir a ddylai newid gael ei ddosbarthu fel un mawr neu fân, rhoddir anogaeth i dîm y rhaglen cyn cofrestru drafod hyn ymhellach gyda RCOT i ddynodi'r broses fwyaf priodol.

| **Diffinio newidiadau mân a mawr** | | **Enghreifftiau a'r safon cysylltiedig yn *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru*** | |
|---|---|---|---|
| **Mân newid** | Newidiadau i'r rhaglen cyn cofrestru nad ydynt yn effeithio ar sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn cyrraedd *Safonau* | Gwella adnoddau, e.e. amgylcheddau dysgu wrth ymarfer efelychiadol | Safon 3.2 |
| | | Newidiadau i dîm y rhaglen cyn cofrestru ond nid yr Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol na'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol, gan gynnal y gymhareb addysgwr i ddysgwr | Safon 3.9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.<br><br>Fel arfer bydd mân newidiadau yn effeithio ar ddim ond un elfen o'r cwricwlwm; heb wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen cyn cofrestru yn ei chyfanrwydd. | Newidiadau i arweinwyr modiwlau (ar yr amod bod elfennau penodol i therapi galwedigaethol yn dal i gael eu dysgu gan therapyddion galwedigaethol gydag arbenigedd a chymwysterau priodol) | Safon 3.10 |
| | | Diweddaru cynnwys manwl modylau, heb newid y deilliannau dysgu | Safon 4.3 |
| | | Diweddaru'r rhestrau darllen a'r testunau craidd | Safon 4.3 |
| | | Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu dysgu rhyngbroffesiynol | Safon 4.9 |
| **Newidiadau mawr** | Newidiadau eang i'r rhaglen cyn cofrestru sydd yn effeithio ar sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn cyrraedd *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT. | Newid i lefel, dyfarniad neu deitl y rhaglen cyn cofrestru | Safon 1.1 |
| | | Newidiadau i ofynion derbyn | Safon 2.2 |
| | | Newid i'r adran neu gyfadran sy'n gartref i'r rhaglen | Safon 3.2 |
| | | Newid i'r Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol neu'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol | Safon 3.3 |
| | | Newid i brosesau monitro ansawdd a'i wella | Safon 3.4 a/neu 5.3 |
| | | Newid i'r gymhareb addysgwr i ddysgwr | Safon 3.9 |
| | | Symudiad ffisegol i gampws arall | Safon 3.12 |
| | | Adolygu'r modylau craidd neu orfodol a gyhoeddwyd | Safon 3.18 |
| | | Newid i hyd y rhaglen cyn cofrestru | Safon 4.1 |
| | | Diwygiad sylweddol i ddeilliannau dysgu'r rhaglen cyn cofrestru | Safon 4.1 neu 4.2 |
| | | Adolygu'r dull cyflwyno | Safon 4.6 |
| | | Newid i weithgareddau ymchwil ar sail dysgwyr | Safon 4.8 |
| | | Newid i ddysgu rhyngbroffesiynol sy'n cael ei gymeradwyo ar wahân i'r rhaglen cyn cofrestru | Safon 4.9 |
| | | Newid i batrwm, strwythur, dysgu wrth ymarfer, cyflwyno cyfleoedd dysgu wrth ymarfer dramor neu gyfnewid trwy gynllun Erasmus | Safon 5.2 |
| | | Newid i ddulliau asesu a'r pwysoli rhwng elfennau o'r asesiad; newid i ddynodi modylau fel llwyddo neu fethu | Safon 6.3 |
| | | Newid i werth credyd y rhaglen cyn cofrestru | Safon 1.1 a/neu 6.1 |
| | | Cau rhaglen cyn cofrestru neu ddull o astudio | Safon 1.1 a/neu 3.1 |

## 3.3 Beth yw'r broses ar gyfer hysbysu RCOT o newid mân neu fawr?

Pan na fydd yn glir a ddylai newid gael ei ddosbarthu fel un mawr neu fân, rhoddir anogaeth i dîm y rhaglen cyn cofrestru drafod hyn ymhellach gyda RCOT i ddynodi'r broses fwyaf priodol.

Mân newidiadau
Nid oes raid cael cymeradwyaeth RCOT i fân newidiadau; ond, dylid rhoi gwybod i RCOT am y newid trwy'r adroddiad monitro blynyddol (AMR) am y flwyddyn pan fydd yn newid yn dod i rym. Mae'n ofynnol i dimau rhaglenni cyn cofrestru gadw a chyflwyno tystiolaeth o lwybr archwilio, gan ddangos yn glir sut y dilynwyd peirianweithiau cymeradwyo mewnol y darparwr addysg cyn i'r newid gael ei weithredu.

Pan fydd nifer o fân addasiadau ar draws mwy nag un safon yn cael effaith gyda'i gilydd ac yn cynrychioli newid mwy sylweddol i'r rhaglen cyn cofrestru, mae'n debygol y bydd angen dilyn y broses newid mawr.

Newidiadau mawr
Dylai RCOT gael gwybod cyn i newid mawr gael ei weithredu. Gellir hysbysu RCOT am newidiadau trwy e-bost (at QA@rcot.co.uk) a dylai gynnwys rhesymeg glir ar gyfer newid, copïau o'r holl ddogfennau cysylltiedig, trosolwg o'r monitro ansawdd mewnol a'r prosesau gwella a ddilynwyd, ac esboniad a fu HCPC neu unrhyw randdeiliaid eraill yn rhan o'r newid.

Ar yr achlysuron prin pan fydd newid wedi cael ei gymeradwyo gan HCPC a'i bod wedi bod yn angenrheidiol ei weithredu cyn hysbysu RCOT, dylai'r darparwr addysg gyflwyno'r hysbysiad cyn gynted â phosibl. Dylai'r hysbysiad gynnwys Ffurflen Newidiadau Mawr HCPC wedi ei fapio i *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny a gyflwynwyd gydag o, ynghyd ag amlinelliad clir o'r amgylchiadau wnaeth achosi gweithredu newid cyn ceisio cymeradwyaeth RCOT.

Ar ôl cael ei hysbysu, bydd RCOT yn ystyried yr effaith ar yr Achrediad parhaus ar y rhaglen cyn cofrestru a bydd yn hysbysu tîm y rhaglen cyn cofrestru o'r canlyniad. Gall yr hysbysiadau gael eu hadolygu ar y cyd ag Achredwr RCOT. Pan na fydd cynnig am newid mawr, cynhelir trafodaethau pellach gyda'r darparwr addysg ac Ymweliad Achredu efallai i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r newid.

Bydd rhaglenni cyn cofrestru yn parhau i gael eu hadolygu ar eu cylch Achredu os bydd newid wedi ei gymeradwyo neu beidio yn y cylch Achredu 5 mlynedd.

## 3.4 Beth yw'r adroddiadau monitro blynyddol (AMR)?

Fel amod cyn cael Achrediad RCOT, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg gyflwyno adroddiad monitro blynyddol (AMR) ar gyfer pob rhaglen cyn cofrestru. Mae 2 fath o AMR:

- Adroddiad A: Monitro Blynyddol Llawn;
- Adroddiad B: Monitro Blynyddol Ysgafn.

Bydd RCOT yn darparu'r templed AMR perthnasol (Adroddiad A neu B) i raglenni cyn cofrestru unigol, gan ddibynnu ar eu sefyllfa yn y cylch achredu 5 mlynedd. Bydd pob rhaglen cyn cofrestru yn llenwi adroddiad Monitro Blynyddol Llawn (Adroddiad A) bob 2

flynedd, gydag Adroddiad Blynyddol Ysgafn (Adroddiad B) yn y canol. Ni fydd angen cyflwyno adroddiad yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r Ail-achredu yn digwydd ynddi.

Mae pob AMR yn seiliedig ar hunan-ddatganiad gan y darparwr addysg o ran ei allu i barhau i fodloni *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

Yn ychwanegol at yr AMR, mae'n ofynnol i bob rhaglen cyn cofrestru gyflwyno data am y nifer o ddysgwyr a dderbyniwyd ac a adawodd yn flynyddol.

Cesglir data arwyddocaol o fudd i'r proffesiwn ac fel sail i ddatblygu'r gweithlu a'r rhaglen gan yr holl ddarparwyr addysg a'i gyflwyno mewn adroddiad yn flynyddol.

## 3.5 Pa gyswllt sydd gennym gyda RCOT trwy gydol y flwyddyn academaidd?

Mae'r calendr isod yn disgrifio'r wybodaeth a roddir, ac y gofynnir amdani, gan RCOT trwy gydol y flwyddyn academaidd.

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad y gweithgaredd** |
|---|---|
| *Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol RCOT* yn cael ei anfon i'r holl Arweinwyr Rhaglen – Lefel Strategol i'w dosbarthu i ddysgwyr newydd | Medi |
| Anfoneb am ffioedd Achredu yn cael ei hanfon gan RCOT | Hydref |
| Darparwr addysg i gadarnhau niferoedd wedi ymrestru (newydd a pharhaus) ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru yn dechrau ym mis Medi | Hydref |
| Anfoneb am ffioedd aelodaeth myfyrwyr o RCOT yn cael ei hanfon gan RCOT | Hydref |
| Templed AMR yn cael ei hanfon gan RCOT | Hydref |
| Darparwr addysg i gyflwyno AMR wedi ei lenwi ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru yn dechrau ym mis Medi | Ionawr |
| Darparwr addysg i gadarnhau niferoedd wedi ymrestru (newydd a pharhaus) ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru yn hwyrach na Medi | Chwefror |
| Darparwr addysg i gyflwyno AMR wedi ei lenwi ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru yn dechrau yn hwyrach na Medi | Ebrill |
| Gwybodaeth am ffioedd a buddiannau Achrediad yn cael eu hanfon gan RCOT at Ddeoniaid/Penaethiaid Ysgolion ac Arweinwyr Proffesiynol – Lefel Strategol | Mehefin |
| AMR wedi eu casglu yn cael eu cyhoeddi gan RCOT, ar gael i'r holl ddarparwyr addysg | Mehefin |
| Arweinwyr Proffesiynol – Lefel Weithredol i gadarnhau eu dewis o ran aelodaeth myfyrwyr o RCOT gyda RCOT | Mehefin |
| RCOT yn diweddaru gwefan WFOT gyda manylion y rhaglenni cyn cofrestru sydd wedi eu hachredu | Mehefin a pharhaus |
| Darparwr addysg i gadarnhau'r nifer o fyfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs | Gorffennaf |

## 3.6 Sut fyddwn ni'n gofyn am estyniad i'r cyfnod mwyaf o astudio ar gyfer ein dysgwyr?

Rhaid i bob rhaglen cyn cofrestru fod am 90 wythnos o ddysgu a drefnwyd, o leiaf. Rhaid i gyfnod dysgu unigolyn beidio â bod yn hwy na hyd y rhaglen cyn cofrestru a 2 flynedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gofyn am ymestyn tu hwnt i'r uchafswm hwn am gyfnod o 6 mis. Mewn achosion o'r fath, rhaid gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig gan RCOT cyn cychwyn ar unrhyw astudiaeth bellach, gan gynnwys dysgu wrth ymarfer.

Rhaid cysylltu â RCOT yn ysgrifenedig cyn gynted ag y daw yn amlwg bod dysgwr yn profi anawsterau a all ymestyn ei gyfnod o ddysgu tu hwnt i hyd y rhaglen cyn cofrestru a 2 flynedd.

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod gan raddedigion wybodaeth a sgiliau cyfredol, i sicrhau eu bod yn ymarfer yn ddiogel a bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

Rhaid i geisiadau am estyniad i gyfnod dysgu unigolyn gael eu hanfon yn ysgrifenedig at RCOT. Dylai'r cais gynnwys manylion am:

- y rheswm pam bod y cais yn cael ei wneud a manylion yr amgylchiadau a arweiniodd ato;
- cadarnhad o daith y dysgwyr hyd yn hyn, gan gynnwys y dyddiad cychwyn a lefelau a chamau a gwblhawyd arni;
- trawsysgrif o ddysgu academaidd ac wrth ymarfer y dysgwr;
- manylion unrhyw wrandawiadau panel addasrwydd i ymarfer;
- y cynllun astudio unigol;
- datganiad yn adlewyrchu a yw tîm y rhaglen cyn cofrestru yn gefnogol i'r cais;
- cadarnhad bod y trefniadau ariannu wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda'r dysgwr;
- manylion sut y bydd y dysgwr yn cael ei gefnogi i ddilyn y cyfnod ychwanegol o ddysgu.

Os caniateir estyniad gan RCOT, rhoddir anogaeth i'r darparwr esbonio i'r dysgwr bod y penderfyniad wedi gofyn am ystyriaeth ddwys ac nad yw wedi cael ei wneud yn rhwydd.

Mae angen i'r darparwr addysg ystyried sut y bydd estyniad yn effeithio ar drosglwyddiad y dysgwr i ymarfer proffesiynol ac, ar ôl i'r dysgwr raddio ac nad yw'n cael cefnogaeth gan y darparwr addysg bellach, a oes risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. Mae'n bwysig ystyried dwyn materion o'r fath i sylw rhanddeiliaid perthnasol (fel HCPC, RCOT, a chyflogwyr, yn achos rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru) cyn gynted â phosibl. Dylai strategaethau rheoli risg gael eu gweithredu gan yr holl randdeiliaid trwy gydol ymrestriad dysgwr. Rhaid dechrau ar drafodaethau a yw dysgwr yn cael ei ystyried yn addas i barhau yn y proffesiwn cyn gynted ag y daw yn amlwg bod problem bosibl.

### 3.7 Sut allwn ni ofyn am estyniad i'n cylch Achredu?

Gellir gofyn am estyniadau i'r cylch Achredu gan ddarparwr addysg a bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail unigol gan RCOT. Mae'r enghreifftiau o'r achlysuron pan ellir rhoi estyniad yn cynnwys:

- ar gyfer cysoni cylch adolygu'r rhaglen cyn cofrestru â chylch adolygu mewnol y darparwr addysg neu rai rhaglenni iechyd cyn cofrestru eraill cysylltiedig;
- pan fydd ad-drefnu mewnol sylweddol ar ysgolion neu adrannau mewnol.

Rhaid i unrhyw gais am estyniad gael ei wneud yn ysgrifenedig i RCOT, o leiaf 6 mis cyn dyddiad olaf y rhaglen cyn cofrestru.

### 3.8 Beth sy'n digwydd os oes gan RCOT bryder am y rhaglen cyn cofrestru?

Bydd RCOT yn codi pryderon gyda'r darparwr addysg am gyflawni rhaglen cyn cofrestru os:

- credir nad yw'r darparwr addysg yn bodloni gofynion Achrediad;
- bydd RCOT yn derbyn cwyn am y darparwr addysg neu'r rhaglen cyn cofrestru e.e. gan ddysgwr, aelod o'r cyhoedd neu broffesiwn;
- mae problem bosibl yn cael ei dynodi trwy'r broses fonitro a gwella ansawdd flynyddol.

Yn dilyn derbyn pryder neu gŵyn, bydd RCOT yn trafod hyn yn gyfrinachol gyda'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol neu'r Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol a bydd yn ei godi i'r Pennaeth Adran/Deon y Gyfadran os na ellir datrys y mater. Gall RCOT gyfleu'r pryder i HCPC os bydd angen.

## Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk

# Adran 4: Adroddiadau Monitro Blynyddol a Luniwyd (AMR)

Mae RCOT yn casglu data o'r holl raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru trwy broses fonitro ansawdd flynyddol. Cesglir data arwyddocaol o fudd i'r proffesiwn ac fel sail i ddatblygu'r gweithlu a'r rhaglen, fe'i cyflwynir mewn adroddiad wedi ei lunio a sicrheir ei fod ar gael yn flynyddol.

*https://www.rcot.co.uk/amrs*

## Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk

# Adran 5: Achredwyr

Yma cewch wybodaeth am rôl Achredwyr RCOT. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon ym Medi 2019 a dylid ei darllen ar y cyd â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

## 5.1 Beth yw rôl Achredwr RCOT?

Mae Paneli Achredu RCOT yn cynnwys 1 Swyddog RCOT ac 1–2 Achredwr RCOT. Mae Achredwyr RCOT yn therapyddion galwedigaethol ac yn aelodau proffesiynol o RCOT sydd ag enw da, sydd wedi dangos cyfraniad sylweddol at ddatblygu a chyflwyno rhaglenni cyn cofrestru.

Mae cyfrifoldebau Achredwyr RCOT yn cynnwys:

- gweithio ar y cyd ag aelodau eraill Panel Achredu RCOT, y darparwr addysg a rhanddeiliaid perthnasol eraill;
- cynrychioli RCOT mewn Ymweliadau Achredu trwy'r Deyrnas Unedig i gyd;
- asesu ac adolygu dogfennau rhaglen a gyflwynir i'w Hachredu gan ddarparwyr addysg yn feirniadol;
- amlygu meysydd yn y rhaglen cyn cofrestru sydd angen eu datblygu ymhellach;
- cefnogi'r darparwr addysg i wneud yr addasiadau priodol i sicrhau bod y rhaglen cyn cofrestru yn cyrraedd *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT;
- cymryd rhan wrth adolygu hysbysiadau o newidiadau mawr a mân;
- dynodi amodau, argymhellion a chanmoliaeth i'w trin cyn i'r Achrediad gael ei ddyfarnu.

Telir i Achredwyr RCOT am eu cyfraniad a rhoddir nifer o gyfleoedd hyfforddi a chefnogaeth iddynt.

## 5.2 Beth yw disgwyliadau RCOT o'r Achredwyr?

Disgwylir i Achredwyr RCOT:

- fynychu a chymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi berthnasol a ddarperir gan RCOT;
- gadw llygad ar bolisïau cyrff proffesiynol perthnasol a'u gweithredu;
- roi cyngor arbenigol a chyfrannu at drafodaethau a llunio penderfyniadau;
- ymrwymo i gynnal, datblygu a gwella eu gwybodaeth broffesiynol, sgiliau a gallu trwy ddatblygu proffesiynol parhaus;
- gadw at ofynion disgwyliadau RCOT o ran safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad moesegol a phroffesiynol y proffesiwn, gan gynnal enw da RCOT;
- ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau yn ystod eu gwaith fel Achredwyr RCOT;
- ddilyn Proses Achredu RCOT;
- bod yn barod i deithio am hyd at 3 diwrnod ar unrhyw un adeg, gan ddibynnu ar natur yr Ymweliad Achredu;
- gyflawni gweithgareddau Achredu mewn modd effeithlon a sensitif i amser.

Mae gan RCOT broses ddatgelu buddiannau glir, i ddynodi unrhyw wrthdaro posib cyn i Achredwr gael ei ddyrannu i Banel Achredu penodol. Rhaid i Achredwyr RCOT fod yn aseswyr annibynnol. Os bydd darparwr addysg wedi gweithio gydag Achredwr wrth

ddatblygu ei raglen cyn cofrestru neu fel cynghorydd ar y Broses Achredu, ni fydd yr unigolyn hwn yn gymwys i ymuno â'r Panel Achredu.

### 5.3 Sut gallaf ddod yn Achredwr RCOT?

Tynnir Achredwyr o blith therapyddion galwedigaethol cymwys, sydd yn cael ei gydnabod trwy eu haelodaeth broffesiynol o RCOT sydd yn gallu profi cyfraniad sylweddol at ddatblygu cwricwlwm a chyflwyno rhaglenni cyn cofrestru. Fel arfer bydd Achredwyr RCOT yn cael eu penodi am dymor o 3 blynedd. Gwahoddir ceisiadau am rôl Achredwr RCOT yn flynyddol trwy hysbyseb yn *OT News*.

Chwilir am geisiadau a mynegiant o ddiddordeb gan aelodau proffesiynol RCOT sydd â:

- lleiafswm o 5 mlynedd o brofiad mewn addysg uwch gan gyfrannu'n weithredol at addysgu a hyfforddi'r rhai sy'n dysgu bod yn therapyddion galwedigaethol;
- dealltwriaeth drylwyr o bolisïau addysg presennol ac ymarfer y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar gyflwyno a datblygu hyfforddiant proffesiynol mewn lleoliad iechyd a chymdeithasol;
- profiad sylweddol o ddylunio a datblygu cwricwlwm;
- ymwneud yn weithredol â strategaethau dysgu, addysgu ac asesu cyfredol;
- dealltwriaeth o egwyddorion sicrwydd ansawdd mewn addysg uwch;
- proffil datblygu proffesiynol sy'n cyfateb i'r canlynol neu yn well na hynny:

| **Piler Ymarfer** | **Lefel gyrfa** |
|---|---|
| Ymarfer Proffesiynol | Lefel 7 |
| Hwyluso Dysgu | Lefel 7 |
| Arweinyddiaeth | Lefel 7 |
| Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | Lefel 6 |

Yn dilyn penodiad llwyddiannus, rhaid mynychu diwrnod astudio cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd yn gysylltiedig ag Achredu, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Achredwyr am *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT a'r Broses Achredu.

Yn ystod Ymweliadau Achredu ar gyfer Ail-achredu un raglen cyn cofrestru, bydd Panel Achredu RCOT yn cynnwys 1 Achredwr RCOT, 1 Achredwr sy'n hyfforddi a'r Swyddog RCOT. Mae digwyddiadau o'r fath yn gyfle i Achredwyr newydd gysgodi'r Achredwr profiadol i gael profiad hyfforddi.

## Cysylltwch â Ni

Am gyngor ar bob agwedd o'r Broses Achredu a monitro ansawdd parhaus ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru, anfonwch e-bost at QA@rcot.co.uk

# Adran 6: Diffiniadau a thermau

Cyhoeddwyd y diffiniadau canlynol ym Medi 2019 ac maent yn adlewyrchu'r diffiniadau a'r termau a gynhwysir yn *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT.

| | |
|---|---|
| Addysgwr | Unigolyn â'r wybodaeth arbenigol berthnasol a'r arbenigedd, a gyflogwyd neu a benodir gan ddarparwr addysg i addysgu'r rhaglen cyn cofrestru. Rhaid i addysgwyr sy'n addysgu gwybodaeth a sgiliau penodol i therapi galwedigaethol fod yn therapyddion galwedigaethol. Gall addysgwyr hefyd gael eu galw yn 'academyddion', 'tiwtoriaid' neu 'ddarlithwyr'. |
| Addysgwr ymarfer | Therapydd galwedigaethol sy'n goruchwylio, hwyluso dysgu, asesu a chefnogi dysgwr yn ystod y 1000 o oriau gofynnol o ddysgu yn seiliedig ar ymarfer a gwblhawyd yn llwyddiannus. Fel arfer, mae gan yr addysgwr ymarfer waith gyda'r darparwr dysgu yn seiliedig ar ymarfer ac mae'n cymryd y rôl o addysgwr ymarfer fel elfen o'i swydd. Pan fydd dysgu wrth ymarfer yn digwydd mewn lleoliad heb rolau therapi galwedigaethol, ni fydd yr addysgwr ymarfer yn therapydd galwedigaethol. Yn hytrach, gall y rôl gael ei llenwi gan aelod arall o'r staff a gyflogir gan y darparwr dysgu wrth ymarfer sy'n cynnig addysg a chefnogaeth yn benodol i'r lleoliad. Mewn achosion o'r fath, rhaid i oruchwyliaeth ac asesu sgiliau penodol i therapi galwedigaethol gael eu rhoi trwy oruchwyliaeth hyd braich gan therapydd galwedigaethol. Gall addysgwyr ymarfer hefyd gael eu galw yn 'diwtoriaid lleoliad ymarfer'. |
| Arweinwyr modiwlau | Yr addysgwr sy'n gyfrifol am yr uned benodol o ddysgu mewn darparwr addysg. |
| Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol | Y rôl yn y darparwr addysg sy'n gyfrifol am arwain y set o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Mae'r Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol:<br><br>• yn therapydd galwedigaethol;<br>• mae ganddo ystod eang o brofiad proffesiynol, gan gynnwys penodiad academaidd gwirioneddol gan ddarparwr addysg;<br>• yn arwain datblygu a gweithredu rhaglenni cyn cofrestru cyfoes, creadigol a blaengar yn strategol;<br>• yn cael yr awdurdod gan y darparwr addysg i ofalu bod y rhaglen cyn cofrestru yn cyd-fynd â'r S*afonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru*;<br>• yn dyrannu therapydd galwedigaethol, a gyflogwyd gan y darparwr addysg, i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu cyfleoedd dysgu wrth ymarfer ar draws ystod o leoliadau dysgu wrth ymarfer;<br>• yn cysylltu â thîm uwch reoli'r darparwr addysg i sicrhau eu bod yn ymwneud â'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru;*<br>• yn cydnabod anghenion y proffesiwn wrth iddynt newid ac yn addasu'r rhaglen cyn cofrestru i ymdrin â'r anghenion |

| | |
|---|---|
| | hyn;<br>• yn cydnabod y newid yn anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol ac yn addasu'r rhaglen cyn cofrestru i ymdrin â'r anghenion hyn;<br>• yn meddu gallu dan Lefel 7 y piler Arweinyddiaeth yn *Y Fframwaith Datblygu Gyrfa*;<br>• yn aelod o RCOT;<br>• yn hwyluso a chefnogi ymwneud gweithredol cydweithwyr a dysgwyr â RCOT.<br><br>Gall yr un unigolyn fod yn Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol ac yn Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol ar yr un pryd, ond mae'n debygol y byddai baich gwaith y ddwy rôl yn atal y trefniant hwn ac felly mae'n fwy cyffredin i'r rolau gael eu dal gan unigolion gwahanol. |
| Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol | Y rôl yn y darparwr addysg sy'n gyfrifol am arwain y rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Mae'r Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol:<br><br>• yn therapydd galwedigaethol;<br>• yn gyfrifol am sicrhau bod y *Safonau dysg a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* yn cael eu cyrraedd;<br>• yn uniongyrchol gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen cyn cofrestru;<br>• yn gyfrifol am drefnu'r gwaith cynllunio a gweinyddu'r rhaglen cyn cofrestru;<br>• yn aelod o RCOT;<br>• yn hwyluso a chefnogi ymwneud gweithredol cydweithwyr a dysgwyr â RCOT.<br><br>Gall swydd yr Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol fod yn swydd sy'n cylchdroi, gan roi cyfle i hybu gyrfa ac ehangu sgiliau i unigolion gwahanol. Gall yr un unigolyn fod yn Arweinydd Rhaglen – Lefel Weithredol ac yn Arweinydd Proffesiynol – Lefel Strategol ar yr un pryd, ond mae'n debygol y byddai baich gwaith y ddwy rôl yn atal y trefniant hwn ac felly mae'n fwy cyffredin i'r rolau gael eu dal gan unigolion gwahanol. |
| Asesiad terfynol | Asesiad annibynnol ar ddiwedd y rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru, i asesu a yw'r dysgwr wedi llwyddo i gael medrusrwydd ac yn gymwys i gael dyfarniad sy'n arwain at fod yn gymwys i ymgeisio am gael ei gofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC. Mae asesu terfynol trylwyr, cadarn ac annibynnol yn hanfodol i roi hyder i gyflogwyr bod prentisiaid yn gymwys ac yn gallu mynd i mewn i'r proffesiwn therapi galwedigaethol.<br><br>Penderfyniad y cyflogwr yw rhoi dysgwr ymlaen i gael asesiad terfynol, unwaith y bydd yn hyderus bod y dysgwr yn barod. Gall y cyflogwr, yn ôl ei farn, ymgynghori â'r dysgwr a/neu ddarparwr/ddarparwyr addysg. Rhaid i drydydd parti annibynnol, |

| | |
|---|---|
| | nad yw wedi bod yn rhan o hyfforddi na chyflogi'r prentis, a heb unrhyw wrthdaro buddiannau eraill, roi'r asesiad terfynol. Rhaid i'r trydydd parti annibynnol fod yn sefydliad sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol ar gyfer y safon prentisiaeth. Rhaid i'r asesiad o sgiliau therapi galwedigaethol gael ei gynnal gan therapydd galwedigaethol.<br><br>O leiaf 12 mis cyn yr asesiad terfynol cyntaf a drefnwyd, mae'n ofynnol i'r darparwr addysg gyflwyno tystiolaeth i'r RCOT ei fod wedi ei gofnodi ar y Gofrestr o Sefydliadau Asesu Terfynol, neu ei fod wedi penodi asesydd terfynol o blith y rhai sydd wedi cael eu cofnodi yn llwyddiannus ar y Gofrestr. |
| Cwricwlwm | Dogfen benodol yn disgrifio'r deilliannau dysgu, dulliau addysgol a'r asesiadau am bob elfen o'r rhaglen cyn cofrestru. |
| Cyflogwr | Sefydliad cyhoeddus, annibynnol neu drydydd sector sy'n cyflogi pobl i wneud rôl benodol gyda thelerau ac amodau sy'n dderbyniol yn gyfreithiol a chontractaidd. Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru'r cyflogwr yw'r sefydliad sy'n cyflogi unigolyn i wneud gwaith penodol sy'n cynnwys hyfforddi neu ddatblygu sgiliau fel rhan o'r rôl. Mewn achosion o'r fath, rhaid i gyflogwyr gyflogi'r unigolyn nes bydd ei hyfforddiant a'i asesiad terfynol wedi eu cwblhau. |
| Cynllun astudio unigol | Y dogfennau sy'n diffinio unrhyw amrywiad yng nghynnydd dysgwr trwy'r rhaglen cyn cofrestru, hynny yw, unrhyw ddargyfeiriad oddi ar y llwybr cynnydd arferol trwy raglen cyn cofrestru y mae dysgwr unigol wedi ei gymeradwyo i'w ddilyn. Rhaid i'r amrywiad gael ei fapio yn glir a'i drafod gyda'r dysgwr.<br><br>Bydd y meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y bydd cynllun astudio unigol yn cael ei ystyried a'i weithredu yn cael eu cofnodi gan y darparwr addysg. Ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael cynllun astudio unigol, dylid ei sefydlu ar y cyfle cyntaf posibl a rhaid i unrhyw newidiadau ac addasiadau a fydd yn cael eu gwneud i'r rhaglen cyn cofrestru i weddu i anghenion y dysgwr gael eu diffinio. Rhaid i unrhyw newidiadau ac addasiadau ddal i fodloni gofynion y darparwr addysg a'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru*. Rhaid i gynllun dysgu unigol gael ei gytuno gan y dysgwr, yr addysgwr a'r Arweinydd Rhaglen - Lefel Weithredol. Ar gyfer rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, rhaid i'r cyflogwr hefyd gytuno arno. Rhaid cael proses adolygu briodol a ddiffinnir pan fydd y cynllun astudio unigol yn cael ei sefydlu a dylai'r darparwr addysg gadw at hwn. Mae'r enghreifftiau o achlysuron pan ellid ystyried cynllun astudio unigol yn cynnwys ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu ddychwelyd i astudio bob yn gam yn dilyn cyfnod sylweddol o salwch. Gall cynllun astudio unigol hefyd gael ei alw yn 'llwybr unigolyddol'. |

| | |
|---|---|
| Datblygu Proffesiynol Parhaus | Y ffordd y mae unigolyn yn parhau i ddysgu a datblygu trwy gydol ei yrfa, gan gynnwys yn ystod ei raglen cyn cofrestru. Mae datblygu proffesiynol parhaus yn hanfodol ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth, hunaniaeth broffesiynol ac ymddygiad proffesiynol fel bod unigolion yn cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol. |
| Darparwr addysg | Y corff dyfarnu sy'n cyflwyno neu oruchwylio rhaglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru. Gall darparwyr addysg hefyd gael eu hadnabod fel 'sefydliadau addysg uwch' neu 'brifysgolion'. |
| Darparwr dysgu wrth ymarfer | Y gwasanaeth, sefydliad neu fusnes sy'n gwesteio dysgwyr yn ystod eu dysgu wrth ymarfer. Gall darparwyr dysgu wrth ymarfer hefyd gael eu galw yn 'ddarparwyr lleoliad ymarfer'. |
| Diogelu | Y broses sydd wedi ei sefydlu o fewn darparwr addysg i ddiogelu dysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol rhag profi niwed, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu. |
| Disgwyliadau ymddygiad moesegol a phroffesiynol y proffesiwn | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r *Cod ymddygiad moesegol a phroffesiynol*. Bydd y *Cod ymddygiad moesegol a phroffesiynol* yn cael ei adolygu yn fuan ar ôl cyhoeddi'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* ac efallai y bydd iddo deitl newydd. |
| Dogfennau'r rhaglen | Tystiolaeth a roddwyd gan y darparwr addysg fel rhan o Broses Achredu'r RCOT, gan gynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig a'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid mewn Ymweliad Achredu. |
| Dysgu gydol oes | Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n caniatáu i'r unigolyn ddatblygu yn barhaus a gwella'r wybodaeth a'r sgiliau y mae arno eu hangen ar gyfer gwaith a boddhad personol (Broughton a Harris 2019). |
| Dysgu rhyngbroffesiynol | Dysgwyr o wahanol broffesiynau yn cymryd rhan yn weithredol i ddysgu gyda, oddi wrth ac amdan ei gilydd. Y deilliant disgwyliedig o ddysgu rhyngbroffesiynol yw datblygu diwylliant gwaith o gydweithio ac integreiddio effeithiol ar ofal ar draws asiantaethau, sectorau a phroffesiynau yn a thu hwnt i'r systemau iechyd, llesiant, cymdeithasol a gofal integredig. |
| Dysgu wrth ymarfer | Therapi galwedigaethol yn cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n gadael i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu gwybodaeth a'u sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel. Yn draddodiadol mae dysgu wrth ymarfer wedi digwydd mewn lleoliadau lle mae'r rôl wedi ymsefydlu, fel ysbytai a gwasanaethau iechyd cymuned; ond, mae lleoliadau gwahanol a heb fod yn draddodiadol hefyd yn ganolog i raglenni cyn cofrestru. Mae cynnwys lleoliadau dysgu wrth ymarfer lle nad oes rôl therapi galwedigaethol ar y pryd yn bwysig i ddatblygu arweinwyr sydd â sgiliau arwain a all weithio mewn lleoliadau amrywiol. |

| | |
|---|---|
| Dysgu wrth ymarfer efelychiadol | Amgylcheddau wedi eu llunio yn artiffisial i gynrychioli sefyllfaoedd gwirioneddol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer sgiliau clinigol a llunio penderfyniadau mewn amgylchedd diogel. Mae'n rhoi cyfle i ailadrodd, adborth, gwerthuso ac ystyried, gydag enghreifftiau yn cynnwys dysgu ar sail fideo, chwarae rôl, sefyllfaoedd lle mae dysgwyr neu eraill yn actio'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau therapi galwedigaethol, sefyllfaoedd yn defnyddio actorion sydd wedi eu hyfforddi yn broffesiynol, a defnyddio cyrff cyfrifiadurol. Dylai'r dull a ddewisir gael ei bennu yn ôl y deilliannau dysgu a chael ei ddefnyddio yn effeithiol a chymesur i gefnogi dysgu ac asesu. Os bydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r 1000 o oriau o ddysgu wrth ymarfer, rhaid i ddysgu efelychiadol gael ei asesu, ni all fod yn hwy na 40 awr a rhaid iddo ddigwydd gydag unigolion yn rôl pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol. |
| Dysgwr | Unigolyn sydd wedi cofrestru ar raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru, pa bynnag lwybr mynediad i'r proffesiwn y mae'r dysgwr wedi cofrestru arni. Gall dysgwyr hefyd gael eu galw yn 'fyfyrwyr', neu o ran rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, 'prentisiaid'. |
| Ffrind beirniadol | Mae ffrind beirniadol yn rhoi cefnogaeth a chyfarwyddyd i dîm y rhaglen trwy amlygu meysydd lle mae arfer da, dynodi sut y mae'r rhaglen cyn cofrestru yn ymdrin â *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* RCOT a herio meysydd a all fod angen eu hadolygu. Gall cefnogaeth gael ei chynnig trwy fentoriaeth a chyngor. |
| Goruchwyliaeth | Perthynas a gweithgaredd proffesiynol sy'n sicrhau safonau da o ran ymarfer ac yn hwyluso datblygiad. Mae llawer o wahanol fathau o oruchwyliaeth, ond yn gyffredinol:<br>• mae'n cynnwys perthynas broffesiynol;<br>• mae'n broses;<br>• mae'n weithredol a deinamig, gydag amcanion wedi eu diffinio;<br>• mae'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau;<br>• mae'n ymwneud â safonau, effeithiolrwydd a gallu;<br>• mae'n ymwneud â chaffael a datblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad proffesiynol;<br>• mae'n ymgorffori elfennau personol, proffesiynol a sefydliadol;<br>• gall gynnwys efelychiad;<br>• mae'n cynnwys myfyrio am ymarfer. |
| Goruchwyliaeth hyd braich | Yn gynyddol mae amrywiaeth yn y math o leoliadau a gynigir ar gyfer dysgu wrth ymarfer. Efallai na fydd gan rai lleoliadau rolau |

| | |
|---|---|
| | therapi galwedigaethol yn bodoli ac felly efallai na fydd yn bosibl i'r dysgwr gael cefnogaeth gan therapydd galwedigaethol a gyflogir gan y darparwr dysgu wrth ymarfer, yn rôl addysgwr sy'n ymarfer. Mewn achosion o'r fath, rhaid i oruchwyliaeth ac asesu sgiliau penodol i therapi galwedigaethol yn ystod dysgu wrth ymarfer gael ei roi gan therapydd galwedigaethol tu allan i'r darparwr dysgu wrth ymarfer. Gelwir hyn yn oruchwyliaeth hyd braich ac yn aml bydd y therapydd galwedigaethol sy'n rhoi'r oruchwyliaeth hyd braich yn cael ei gyflogi gan y darparwr addysg fel addysgwr. Ond yn gynyddol mae modelau goruchwylio hyd braich yn cael eu harchwilio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan therapyddion galwedigaethol a gyflogir mewn lleoliadau eraill.<br><br>Mae cefnogaeth a chyngor yn cael eu rhoi trwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfathrebu o bell, dros y ffôn, galwadau fideo, e-bost, neu ddulliau eraill, gan ddibynnu ar ddewis y dysgwr. Argymhellir ymweld â'r dysgwr yn ei leoliad dysgu wrth ymarfer, yn arbennig ar gyfer lleoliadau lle mae rolau therapi galwedigaethol yn dal i ddod i'r amlwg. |
| Graddedigion | Unigolion sydd wedi llwyddo i fodloni gofynion y rhaglen cyn cofrestru gan eu darparwr addysg ac wedi cael y dyfarniad cysylltiedig. |
| HCPC – Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | Y corff rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd i ddiogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio amrywiaeth o broffesiynau iechyd a gofal, gan gynnwys therapi galwedigaethol. |
| Mentor yn y gwaith | Therapydd galwedigaethol profiadol, gyda chymwysterau priodol sy'n rhoi neu yn goruchwylio strategaeth ddysgu yn y gweithle, sy'n arwain at ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad proffesiynol. Dim ond yng nghyd-destun rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru y defnyddir y term hwn ac mae'n cyd-fynd yn glos â'r addysg benodol i broffesiwn a roddir gan y darparwr addysg. |
| Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol | Unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol neu y maent yn effeithio arno, gan gynnwys cleifion, gofalwyr, cleientiaid, teuluoedd neu gymunedau. Mae'r term hefyd yn cynnwys cydweithwyr a chymheiriaid y therapydd galwedigaethol neu'r dysgwr therapi galwedigaethol y mae eu gwybodaeth, sgiliau neu ymddygiad proffesiynol yn effeithio arnynt. |
| Rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru | Llwybr mynediad gwahanol i'r proffesiwn therapi galwedigaethol, lle gall dysgwyr gael Gradd Baglor neu Feistr llawn fel rhan o'u prentisiaeth. Darparwyr addysg fydd y cyrff dyfarnu o hyd ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu addysg sy'n cyrraedd y *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru.* Bydd y dosbarthiad amser ar gyfer dysgwr sydd wedi cofrestru ar raglen brentisiaeth cyn cofrestru yn cael ei rannu rhwng y dysgu a wneir yn y gweithle ('yn y gwaith') a'r dysgu sy'n digwydd mewn amgylchedd dysgu ffurfiol, sy'n debygol o fod yn rhaniad 80/20. Rhaglen brentisiaeth cyn cofrestru yw un sy'n cael ei chydnabod gan y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol fel *Gradd Integredig – Lefel 6* ac sydd wedi ei chymeradwyo gan yr HCPC a'i hachredu gan RCOT. |

| | |
|---|---|
| Rhaglen cyn cofrestru | Rhaglen astudio therapi galwedigaethol, wedi ei chymeradwyo gan yr HCPC yn arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael cofrestru fel therapydd galwedigaethol gyda'r HCPC. Pan fydd y rhaglen cyn cofrestru wedi ei hachredu gan RCOT, mae dysgwyr yn gymwys i ymuno â RCOT fel aelod fyfyriwr ac, ar ôl cymhwyso fel therapydd galwedigaethol, uwchraddio i aelodaeth broffesiynol.<br><br>Mae'r term yn cynnwys yr holl lwybrau i'r proffesiwn, gan gynnwys llwybrau prentisiaeth cyn cofrestru. |
| Safonau ymarfer proffesiynol | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer therapi galwedigaethol*. Bydd y Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer therapi galwedigatehol yn cael eu hadolygu yn fuan ar ôl i'r *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer addysg cyn cofrestru* gael eu cyhoeddi ac efallai y byddant dan deitl newydd. |
| Set o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru | Casgliad o raglenni therapi galwedigaethol cyn cofrestru a gynigir gan ddarparwr addysg, gydag amrywiaeth o ddyfarniadau neu lwybrau yn arwain at gymhwyster i gofrestru gyda'r HCPC fel therapydd galwedigaethol. |
| Tîm y rhaglen cyn cofrestru | Y staff a gyflogir gan y darparwr addysg i ddatblygu, cyflwyno a/neu werthuso'r rhaglen cyn cofrestru. Mae'r tîm rhaglen cyn cofrestru yn cynnwys y rhai sy'n addysgu'r rhaglen cyn cofrestru yn ogystal â'r staff gweinyddol a chefnogol sy'n ymwneud â hi. |
| Y gymhareb addysgwr i ddysgwr | Y gymhareb addysgwyr i ddysgwyr yn un addysgwr cyfatebol i lawn amser i bob 15-20 o ddysgwyr cyfatebol i amser llawn. Wrth gyfrifo'r cyfatebol i amser llawn i addysgwyr, dim ond amser a dreulir yn addysgu yn uniongyrchol neu yn cefnogi'r rhaglen cyn cofrestru ddylai gael ei gynnwys a rhaid i fwyafrif yr addysgwyr fod yn therapyddion galwedigaethol. Pan fydd cynnydd yn y nifer o ddysgwyr neu ostyngiad sylweddol yn y nifer o addysgwyr yn digwydd, neu y rhagwelir hynny, bydd adroddiad yn cael ei roi i RCOT a bydd strategaeth glir ar gyfer datblygu neu gefnogi tîm y rhaglen cyn cofrestru a'r adnoddau cysylltiedig yn cael eu rhoi. |